28 Gorffennaf 2026

Annwyl

**ATISN 27158 – Y Gymraeg mewn gofal sylfaenol**

Diolch i chi am eich cais i Lywodraeth Cymru am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a dderbyniwyd ar 30 Mehefin 2026. Fe gyfeirioch at gwestiwn ysgrifenedig Cwestiwn Ysgrifenedig - WQ93542 - Senedd Cymru. Gofynnoch am:

**1.** *Allbwn terfynol ac unrhyw ddogfennau cefndirol mewn perthynas ag 1a). yr arolwg a gynhaliwyd gyda darparwyr gofal sylfaenol i ehangu gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys a oes angen adolygu rheoliadau 2019, ac 1b). ymchwil ansoddol ategol.*

**Ein Hymateb**

Gallaf gadarnhau fod Llywodraeth Cymru yn dal gwybodaeth o'r disgrifiad hwn.

Mae allbwn terfynol yr arolwg a'r ymchwil ansoddol sy'n ei gefnogi yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Ystyrir eu bod wedi'u heithrio o dan adran 22 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r Ddeddf yn nodi (inter alia):

*1) Mae gwybodaeth wedi'i heithrio os—*

*(a) yw'r wybodaeth yn cael ei dal gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu berson arall, ar ddyddiad yn y dyfodol (p'un ai yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio).*

*(b)bod yr wybodaeth eisoes yn cael ei dal gyda'r bwriad i'w chyhoeddi ar yr adeg pan wnaed y cais am wybodaeth, ac*

*(c) ei bod hi'n rhesymol ym mhob un sefyllfa y dylid cadw'r wybodaeth yn ộl a pheidio'i rhyddhau hyd nes y dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (a)*

Gallaf gadarnhau bod yr amodau o dan (a) a (b) wedi'u bodloni.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cais.

Mae'r contractiwr ymchwil annibynnol wedi cwblhau'r gwaith a mae'r adroddiad drafft yn destun sicrwydd ansawdd ar hyn o bryd. Pan fydd y camau gwirio hyn wedi'u cwblhau, mae'n fwriad cyhoeddi'r adroddiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn yr Hydref, yn dilyn toriad yr haf, yn unol â phrotocolau cyhoeddi Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, sy'n ein hymrwymo i gyhoeddi allbynnau ymchwil o fewn 12 wythnos o dderbyn yr adroddiad terfynol.

O dan (c), barn Llywodraeth Cymru yw ei bod hi'n rhesymol peidio â datgelu'r wybodaeth ym mhob un o'r amgylchiadau hyd nes yr amser hwnnw. Efallai na fyddai cyhoeddi'r

wybodaeth nawr yn adlewyrchu'r wybodaeth a gyhoeddir ar y wefan, gan fod yr ymchwil yn cael ei adolygu. Oherwydd hynny, rydym yn credu ei bod hi'n rhesymol i'r amserlen ar gyfer cyhoeddi barhau er mwyn sicrhau cywirdeb a hygrededd y wybodaeth.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dal dogfennau cefndirol mewn perthynas â'r arolwg a'r ymchwil ansoddol sy'n ei gefnogi (gweler y ddogfen – Gwybodaeth i'w Rhyddhau wedi'i Golygu).

Rydym o'r farn fod peth o'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei rhyddhau o dan adrannau canlynol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

- Adran 43(2) – Niwed i Fuddiannau Masnachol, ac
- Adran 40(2) – Gwybodaeth Bersonol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Ceir esboniad o sut yr ydym wedi cymhwyso'r eithriadau yma yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn.

**Camau Nesaf**

Os ydych yn anfodlon gyda'r modd mae Llywodraeth Cymru wedi delio â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith o ddyddiad yr ymateb. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
neu Ebostiwch: Freedomofinformation@llyw.cymru

Cofiwch nodi eich rhif cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych yr hawl hefyd i gwyno at y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Sir Gaer
SK9 5AF

Nodwch, fodd bynnag, na fydd y Comisiynydd fel arfer yn archwilio cwyn hyd nes bod y gwyn wedi bod trwy'n proses adolygu mewnol.

Yn gywir,

**Atodiad 1**

**Defnydd o Adran 43(2)**

Mae Gwybodaeth Adran 43(2) yn wybodaeth wedi'i heithrio os byddai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn niweidio, neu'n debygol o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n ei dal).

Mae swyddogion wedi ystyried yn ofalus yr holl wybodaeth sy'n perthyn i'r cais hwn gan ystyried y dylai'r wybodaeth dan sylw gael ei heithrio o dan Adran 43(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae Adran 43(2) yn eithriad budd y cyhoedd. Mae hyn yn golygu, er mwyn cadw gwybodaeth o dan ei darpariaethau, mae'n rhaid dangos bod budd y cyhoedd mewn cadw'r wybodaeth yn fwy na'r hyn wrth ei ryddhau.

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif ynghylch gwybodaeth ariannol nad yw wedi'i chyhoeddi sy'n gysylltiedig â'r tendr a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â gallu tendrwr i wneud y gwaith. Felly mae a34(2) yn cael ei defnyddio o ganlyniad i'r wybodaeth sy'n cael ei dal gan y cais hwn.

**Dadleuon budd y cyhoedd o blaid rhyddhau**

Mae budd i'r cyhoedd mewn datgelu gwybodaeth, gan fod mwy o dryloywder yn gwneud Llywodraeth Cymru a gwneud penderfyniadau yn fwy agored ac atebol.

**Dadleuon budd y cyhoedd o blaid atal**

Mae'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn ộl yn cynnwys gwybodaeth sensitif i'r farchnad, sy'n gysylltiedig â'r contract tendr ar gyfer yr ymchwil gofal sylfaenol, a allai gael effaith niweidiol ar fuddiannau masnachol y bartneriaeth contractwr, ei sefyllfa fasnachol gyda chyflenwyr a'i gallu parhaus i gyflawni rhwymedigaethau cytundebol i ddarparu gwaith ymchwil tebyg yn y dyfodol.

Byddai rhyddhau'r wybodaeth yn cael effaith niweidiol ar allu Llywodraeth Cymru i sicrhau contractau cost-effeithiol ac yn niweidio ymddiriedaeth uniondeb perthnasoedd masnachol ac ymgysylltu â chyflenwyr parhaus.

I gloi, tra'n cydnabod bod dadl o fudd y cyhoedd dros ddatgelu ar sail trylowyder, rydym o'r farn bod y ddadl o atal niwed niweidiol i fuddiannau masnachol Llywodraeth Cymru a'i chyflenwyr drwy gadw'r wybodaeth yn ộl, yn gorbwyso'r ddadl o ryddhau'r wybodaeth yn yr achos hwn.

**Adran 40(2) – Gwybodaeth Bersonol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran 40(2) ynghyd â'r amodau yn adran 40(3)(2)(i) neu 40(3)(b) yn darparu eithriad absoliwt os byddai datgelu'r data personol yn torri unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data.

Diffinnir 'data personol' yn adrannau 3(2) a (3) o Ddeddf Diogelu Data 1998 ('DPA 2018') a'i ystyr yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn byw a gafodd ei adnabod neu y gellir ei adnabod. Mae unigolyn byw adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at ddynodwr megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, meddyliol, economaidd, diwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cynnwys data personol trydydd parti.

O dan Adran 40(2) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae data personol wedi'i eithrio rhag rhyddhau os byddai datgelu yn torri un o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Erthygl 5 o'r GDPR. Ystyriwn mai'r egwyddor sydd fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw'r cyntaf. Mae hyn yn nodi bod yn rhaid i ddata personol fod:

*"Wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw mewn perthynas â'r gwrthrych data"*

Y sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol mewn perthynas â chais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw Erthygl 6(1)(f). Mae hyn yn nodi:

*"Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion y buddiannau cyfreithlon a ddilynir gan y rheolydd neu gan drydydd parti ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y gwrthrych data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r gwrthrych data yn blentyn".*

Wrth ystyried cymhwyso Erthygl 6(1)(f) yng nghyd-destun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae angen ystyried y prawf tair rhan canlynol: -

- **Y prawf budd cyfreithiol**: A yw buddiant cyfreithlon yn cael ei ddilyn yn y cais am wybodaeth.
- **Y prawf angenrheidrwydd**: P'un a yw datgelu'r wybodaeth / cadarnhad neu wadu ei bod yn cael ei chynnal yn angenrheidiol i fodloni'r buddiant cyfreithlon dan sylw.
- **Y prawf cydbwyso**: A yw'r buddiannau uchod yn goresgyn buddiannau, hawliau sylfaenol a rhyddid y gwrthrych data.

Mae ein hystyriaeth o'r profion hyn wedi'u nodi isod:

**1. Buddiannau cyfreithlon**

Mae'ch cais yn ymwneud â gwybodaeth am yr arolwg a gynhaliwyd gyda darparwyr gofal sylfaenol i ehangu gwasanaethau Cymraeg, gan gynnwys a oes angen adolygu rheoliadau 2019, ac ymchwil ansoddol ategol cysylltiedig.

Rydym wedi dod i'r casgliad, yn yr achos hwn, nad oes fawr ddim i'w ennill o ryddhau enwau'r unigolion a data personol arall sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfennaeth atodedig. Credwn ein bod wedi darparu digon o wybodaeth i fodloni'r budd cyfreithlon, ac nid ydym yn

credu y byddai datgelu hunaniaeth yr ymgynghorwyr hynny yn caniatáu unrhyw ddealltwriaeth pellach.

## 2. A oes angen datgelu?

Yn dilyn y dadansoddiad uchod, nid ydym yn credu bod datgelu’r data personol yn angenrheidiol.

## 3. Y cydbwysedd rhwng buddiannau cyfreithlon a buddiannau'r gwrthrych data neu hawliau a rhyddid sylfaenol

Gan nad ydym yn credu bod datgelu’r data personol hwn yn angenrheidiol, nid oes gofyniad i ni gynnal prawf i gydbwyso’r buddiannau cyfreithlon yn erbyn hawl unigolion, gan nad yw’r hawliau a’r rhyddid sylfaenol a ddarperir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu herio.